

## **Minutes of the Monthly Meeting of Mumbles Community Council held on 9 April 2024 at 6.30pm (Hybrid Meeting at the Ostreme Centre and via Teams)**

**Members Present:** Cllrs Martin O'Neill (Chair), Cllrs Will Thomas (Vice-Chair), Rebecca Fogarty, Pamela Erasmus, Francesca O'Brien, Rob Marshall, Ian Scott, Carrie Townsend Jones, Hannah Hunter, Rhian Evans, Emilia Cox, Angela O'Connor, Richard Jarvis, Sara Keeton and Helen Nelson

**Officers Present:** Kerry Grabham - Clerk, Ian Hughes - CSO, and Diane Athernought - Customer Services Officer.

**C02404-01** **Apologies for Absence:** Michael Parkin and Tim Zhou.

**C02404-02** **Declarations of Interest:**

Cllr. Marshall declared a personal interest in relation to agenda item **C02404-10** as he is a friend to the applicant (Mumbles Movers and Gower Groovers).

Cllrs. Fogarty, Keeton and O'Neill declared a personal interest regarding the planning application discussion agenda item **C02404-15**. Cllr. Fogarty additionally declared a prejudicial interest as she had previously voted against the application in her capacity as a SCC Councillor.

Cllrs. Fogarty also declared a personal interest in agenda item **C02404-22** as the dispensation request relates to her.

**C02404-03** **Public Participation**

Seven members of the public were present at the meeting together with a further two who accessed the meeting remotely. The seven who attended in person were Steve Bennett, Sue Bennett, Claire Wimness, Michael Wimness (Proprietor of West Cross Garage), Colber Adamian-Thomas, Dennis Dwyer (Proprietor of Ripples Ice Cream Parlor and James Doogan. Their presence was acknowledged by The Chair, Cllr O'Neill who explained that they had attended to provide input in relation to a planning application, **C02404-15** refers. Cllr O'Neill invited the members of the public to make representations at which point Cllrs. Fogarty and Keeton left the meeting at 6.35pm

Initially Mr Adamian-Thomas spoke on behalf of the seven members of the public stating that he had resided opposite the West Cross Garage since 1977 and that he had used both The Garage and Ripples Ice-Cream Parlor on a regular basis. He believed that these were assets to the local community and that a large number of local residents objected to losing these amenities. The planning application proposed replacing the current structure with a three storey building with the loss of The Garage, Mr Adamian-Thomas had set out his objections under seven points in a briefing document which was provided to council members, he then offered to take questions from Councillors which were answered by Mr Adamian-Thomas, Mr Wimness and Mr Dwyer.

In answer to questions, it was explained that one of the seven objections, relating to contamination resulted from spillage of petrol and oil, when fuel was served at the garage and through vehicles being maintained. Mr Adamian-Thomas explained that he was a Fellow of The Civil Engineering Society and that in his experience an appropriate full survey should be carried out in such circumstances.

Further queries raised by Councillors concerned the loss of amenities including the loss of a repair garage which has been operating for 100 years, this loss of an amenity was not suitably addressed in the planning application. Mr Dwyer explained that he had run Ripples for the past 25 years and that it had been an ice-cream parlour for over 40 years.

Other areas of concern raised by Councillors included the potential loss of the only cycle-friendly café on Mumbles Front which provided repair and maintenance facilities. The proposed application also includes increasing the area currently used and would include the removal of seating facilities near the foreshore and impact negatively on the carbon footprint. The planning application relates to residential use although there is no business plan for the ground floor.

The deadline for appeals is 10<sup>th</sup> April 2024 and in answer to Councillors concerns, Cllr. O'Neill stated that individual complaints can be made by Councillors in addition to a 'collective' appeal by Full Council in the event of that being approved by Full Council.

**RESOLVED** that the council unanimously agreed to a formal objection to the planning application. SCC to be informed of the decision by The Clerk on 10<sup>th</sup> April 2024.

Discussion concerning planning application finished at 6.57pm when all members of the public left the meeting and Cllrs. Fogarty and Keeton re-joined the meeting.

#### **C02404-15**

**To Approve the Minutes of the Full Council Meeting held on 12<sup>th</sup> March 2024.**

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 12<sup>th</sup> March 2024 as a true record.

#### **C02404-04**

**To Approve the Schedule of Decisions for Financial Year 2023/24**

The Clerk had circulated relevant documents prior to the meeting outlining the need to demonstrate general powers of competence and offered to address any queries.

**RESOLVED** to accept the report.

#### **C02404-05**

**Clerk's Report**

The Clerk read out her report which is attached, highlighting the success of MCC at the recent One Voice Wales Awards. The awards are being brought to the attention of the wider community through a press release, social media and MCC Website.

**C02404-06 Chair's Report**

The Chair, Cllr O'Neill read out his report which focused on the success of MCC at the recent One Voice Wales Award Ceremony. MCC competed with 750 other town and local community councils and were highly commended in four categories. The awards demonstrated the hard work of Councillors and Officers working together with volunteers and other stakeholders, in achieving projects that address local needs and being innovative and inclusive. Cllr. O'Neill stressed the need for MCC not to rest on their laurels but look forward to achieving further success in the future. No questions were asked of the chair following the reading of his report.

**RESOLVED** to note the report.

**C02404-07 Financial Report for April**

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to councillors, in the absence of The RFO the Clerk offered to take questions in relation to these reports.

A discussion ensued relating to the cost of maintaining Mumbles Skatepark and the surrounding area, particularly the cost of grass cutting by SCC and options for future uses of the area including crop growing.

**RESOLVED** that any discussion concerning the future use of the area adjacent to Mumbles Skatepark should be devolved to The Environmental Committee.

**RESOLVED** to retrospectively approve payments made by the RFO for February and March 2024.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report for February 2024.

**C02404-08 Report from Chair of Finance and Compliance Committee.**

The Chair, of this committee, Cllr Scott had previously provided a report, other than recommendations, subject of following agenda item (**C02404-10**), there were no questions raised.

**RESOLVED** to accept Cllr. Scott's report.

**C02404-09 Recommendations from Finance and Compliance Committee**

**To consider recommendations from the Finance and Compliance Committee held on 18 March 2024.**

Cllrs. O'Brien and O'Connor declared a personal interest in relation to Newton Athletic Football Club.

Cllr Scott outlined the following two recommendations from the Finance and Compliance Committee:

### **1. Mumbles Movers and Gower Groovers Grant Application**

The Finance committee had recommended by a majority of two to one that the amount of £829 per term not be granted to Mumbles Movers and Gower Groovers. The application related to assisting elderly and disabled, to provide friendships and improve their social networking.

A discussion took place on whether this application, whilst previously successful fell within the guidelines of MCC's grant applications. Other recent applications had been unsuccessful, and some councillors believed that the approval of this application would be inconsistent with previous decisions. New guidelines and processes for the approval of grant applications had been agreed at March's Full Council Meeting, however some Councillors raised concerns that these should be further updated. In particular it was suggested that vulnerable and isolated people should be supported by MCC but that this should be achieved through a tendering process reflecting the geographical need of the community.

**RESOLVED** that whilst no decision be taken in relation to the Finance Committee's recommendation, The Clerk and RFO prepare a tendering process and report back to Full Council. This will provide a service for isolated people, addressing social and physical well-being for isolated people throughout The MCC Area, taking into account their geographical locations and addressing their well-being and developmental needs.

### **2. Newton Athletic Football Club Grant Application**

The Finance Committee recommended that a Grant Application for an amount up to £1,500 be approved to assist in holding the first summer football tournament at Underhill Park.

**RESOLVED** to agree to the above recommendation.

### **C02404-10 Report from Chair of Community & Social Committee**

The chair, Cllr. Erasmus had previously circulated her report which focused on proposals to redevelop Mumbles Yacht Club (MYC) and one recommendation in relation to a virement of £3,000 to cover the cost of the 2023 Skate jam detailed below.

The CSO outlined how the presentation by MYC (detailing how a proposed new development on the foreshore) at April's forthcoming meeting of The Community & Social Development Committee had been postponed until May due to the unavailability of personnel from MYC. All Councillors will be invited to May's Committee Meeting for a full update on proposals and developments.

Cllr. Erasmus invited Councillors to ask questions and thanked Councillors and Officers who had assisted in progressing successful projects over many years.

**C02404-11 To consider recommendation from the Community & Social Development Committee held on 20 March 2024.**

That virement of £3,900 is made from CSD21 – Langland Bay Tennis Courts – Clubpark Gates Budget to CSD2 – Skatepark to cover the costs of the Skatepark Jam 2023. The Clubpark Gates Budget has underspent as grant funding was obtained from the LTA Tennis Foundation for the gate installed.

A discussion took place as to why money should be transferred but it was acknowledged that the expenditure had been agreed at an earlier Full Council Meeting.

**RESOLVED** to agree to the above recommendation.

**C02404-12 Report from Chair of Environmental Committee**

The chair, Cllr. Nelson outlined the following key aspects:-

- A discussion at March's Environmental Committee Meeting resulted in all Councillors supporting the immediate appointment of a gardener to replace Martin Russell following his resignation to take up a prestigious post at Penrice Estate. Committee members considered that contracting out work would prove to be counter productive and incur additional costs. Additionally, no responses had been received in relation to tendering quotes from companies approached.
- The Mumbles Gardeners Question Time held at Newton Hall on 22<sup>nd</sup> March 2024 had been a great success and that hopefully it will become an annual event (Cllr. Townsend later added that the event had been recorded by Oystermouth Radio and would be broadcast at 5pm over the coming weekend)
- Mumbles Buzz in Bloom will commence on 1<sup>st</sup> May with winners being announced in September 2024. There will be a number of categories and it is hoped that traders in Newton Road will participate.
- With regard to The Big Climate Leap the Environmental Officer, Lydia Graham is negotiating with SCC having recently succeeded in obtaining grant money. It is hoped to involve all Councillors and the wider community to achieve environmental targets including carbon literacy.

Cllr. Nelson invited Councillors to ask questions.

Whilst no questions were asked Cllr. O'Connor wished to thank Cllr. Nelson on her success and enthusiasm in achieving so many positive results.

**RESOLVED** to accept Cllr. Nelson's report.

**C02404-13 Report from Chair of Culture, Tourism and Communications Committee**

The chair, Cllr. Marshall had previously circulated his report and outlined key aspects including the final preparation for MumblesFest. Disappointment was expressed that no Councillors other than Committee Members attended the 'closed' meeting to discuss appropriate acts on 13<sup>th</sup> March 2024. Cllr. Marshall also provided brief updates on Mumbles Palette, which had been retitled 'A Day in the Life of Mumbles', a photographic competition encouraging all ages and abilities to participate in a range of themes.

Mr Paul Whittaker of Mumbles Traders provided a presentation at the March Committee Meeting with further liaison to take place.

**C02404-14**

**To consider the following recommendation from the Culture, Tourism and Communication Committee held on 27 March 2024.**

That Sianny Martin of Welsh Air Ambulance being allowed to have a 'Castles in the Sky' event at Mumbles Skatepark. No date set.

Cllr. Marshall confirmed that there were no financial implications for MCC regarding this proposed recommendation.

**RESOLVED** to agree to the above recommendation.

**Recommendations from Twinning Sub Committee**

Cllr. Fogarty outlined a proposal for up to £1,500 to be spent on events to welcome a delegation from Hennebont, France, to provide a programme of activities for the 12<sup>th</sup> June 2024 and mark the occasion of 20<sup>th</sup> anniversary of Mumbles being twinned with Hennebont. This includes the following: -

- Trip for up to 30 on The Copper Jack
- Tour of Copper Quarter with guide
- Visit to National Waterfront Museum, including The Transport Museum
- Dinner for 17 hosted by Lord Mayor at Mansion House
- Slate plaque to commemorate 20<sup>th</sup> anniversary of twinning with Hennebont.

**RESOLVED** to agree to the above recommendation.

Cllr. Marshall left the meeting at 8.13pm

**C02404-15**

**Planning Application 2024/0475/FUL**

Discussed earlier under agenda item **C02404-03**

**C02404-16**

**Local Government Finance (Wales) Bill Consultation**

The Clerk had previously circulated documents connected to this agenda item and suggested that it be progressed through a small working group.

**RESOLVED** that Cllrs Keeton, Thomas and Townsend Jones meet with The Clerk on 11<sup>th</sup> April to progress agenda item through a working group. Any additional Councillors who wish to participate to contact The Clerk by e-mail as a matter of urgency.

**C02404-17**

**D-Day Celebrations**

Discussion took place on how MCC should commemorate D-Day.

**RESOLVED** that £20 should be made available for MCC and each primary school in the area to provide a commemorative flag.

**C02404-18**

**One Voice Wales Annual Membership Fee**

The Clerk had circulated relevant documents prior to the meeting and offered to take any questions.

**RESOLVED** to pay the annual One Voice Wales membership fee.  
Cllr. Marshall returned to the meeting at 8.19pm

**C02404-19**

**To Confirm the date for the Annual General Meeting**

The Clerk proposed a date of 7<sup>th</sup> May 2024 for The Annual Meeting.

**RESOLVED** to confirm the 7<sup>th</sup> May 2024 for MCC's Annual Meeting.

**C02404-20**

**To Confirm the Schedule of meeting dates for Financial Year 2024/25**

The Clerk proposed to retain the current schedule for Full Council and committee meetings, namely:-

- Full Council to sit on the second Tuesday of each month.
- Finance and Compliance Committee to sit on the third Monday of each month.
- Community and Social Development to sit on the third Wednesday of each month.
- The Environment Committee to sit on the fourth Monday of each month.
- Culture, Tourism and Communication to sit on the fourth Wednesday of each month.

**RESOLVED** to retain the current schedule for meetings as outlined above.

**C02404-21**

**Exclusion of Press and Public**

In accordance with the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded from the following items of business due to the confidential nature of the business to be transacted.

**RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting.

**C02404-22**

**Dispensation request**

The Clerk set out the circumstances surrounding the dispensation request.

**RESOLVED** to agree to the above request.

**C02404-23**

**Recommendations from Personnel Committee.**

Officers left the meeting at 8.28pm

Discussion took place regarding recommendation(s) made by The Personnel Committee. Amended recommendation(s) proposed.

**RESOLVED** that the amended recommendation(s) was accepted together with associated actions being made.

Officers returned at 8.40pm when the meeting was concluded.

Next meeting 15<sup>th</sup> May 2024

Annual Meeting on 7<sup>th</sup> May 2024

# Cofnodion Cyfarfod Misol

## Cyngor Cymuned y Mwmbwls

### a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2024, am 6.30pm

### (Cyfarfod Hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams)

**Aelodau yn bresennol:** Cynghorydd Martin O'Neill (cadeirydd), Cynghorydd Will Thomas (is-gadeirydd), Rebecca Fogarty, Pamela Erasmus, Francesca O'Brien, Rob Marshall, Ian Scott, Carrie Townsend Jones, Hannah Hunter, Rhian Evans, Emilia Cox, Angela O' Connor, Richard Jarvis, Sara Keeton a Helen Nelson

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry Grabham – Clerc, Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau, a Diane Athernought – Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid.

**C02404-01 Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Michael Parkin a Tim Zhou.

#### **C02404-02 Datganiadau o fuddiant:**

Cafwyd datganiad o fuddiant personol mewn perthynas ag eitem **C02404-10** ar yr agenda gan y Cynghorydd Marshall gan ei fod yn gyfaill i'r ymgeisydd ('Mynd yn y Mwmbwls' a 'Gwefreiddiol yn y Gŵyr').

Cafwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Fogarty, Keeton ac O'Neill ynghylch eitem **C02404-15 ar yr agenda i drafod cais cynllunio**. Cafwyd datganiad o fuddiant sy'n rhagfarnu gan y Cynghorydd Fogarty hefyd fuddiant gan ei bod wedi pleidleisio'n flaenorol yn erbyn y cais yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe.

Cafwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Fogarty hefyd yn eitem **C02404-22** ar yr agenda gan fod y cais am oddefeb yn ymwneud â hi.

#### **C02404-03 Cyfranogiad y Cyhoedd**

Roedd saith aelod o'r cyhoedd yn bresennol wyneb yn wyneb yn y cyfarfod ynghyd â dau arall a ddaeth i'r cyfarfod o bell. Y saith a fynychodd wyneb yn wyneb oedd Steve Bennett, Sue Bennett, Claire Wimness, Michael Wimness (perchennog West Cross Garage), Colber Adamian-Thomas, Dennis Dwyer (perchennog parlwr hufen iâ Ripples) a James Doogan. Cydnabuwyd eu presenoldeb gan y Cynghorydd O'Neill (y cadeirydd) a esboniodd eu bod wedi mynychu i roi mewnbyn mewn perthynas â chais cynllunio, **C02404-15**. Gwahoddodd y Cynghorydd O'Neill aelodau'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau ac ar yr adeg honno gadawodd y cynghorwyr Fogarty a Keeton y cyfarfod am 6.35pm

#### **C02404-15**

I ddechrau, siaradodd Mr Adamian-Thomas ar ran y saith aelod o'r cyhoedd gan ddweud ei fod wedi byw gyferbyn â garej West Cross Garage ers 1977 a'i fod wedi defnyddio'r garej a pharlwr hufen iâ Ripples yn rheolaidd. Credai fod y rhain yn asedau i'r gymuned leol a bod nifer fawr o drigolion lleol yn gwrthwynebu colli'r



amwynderau hyn. Roedd y cais cynllunio yn cynnig amnewid y strwythur presennol a gosod adeilad tri llawr newydd yn ei le gan gollir garej. Roedd Mr Adamian-Thomas wedi nodi ei wrthwynebiadau o dan saith pwynt mewn dogfen frifio a ddarparwyd i aelodau'r cyngor, yna cynigiodd gymryd cwestiynau gan gynghorwyr. Atebwyd y cwestiynau hyn gan Mr Adamian-Thomas, Mr Wimness a Mr Dwyer.

Mewn ymateb i gwestiynau, eglurwyd bod un o'r saith gwrthwynebiad, yn ymwneud â halogiad yn deillio o ollyngiadau petrol ac olew, pan weinir tanwydd yn y modurdy a thrwy gynnal a chadw cerbydau. Eglurodd Mr Adamian-Thomas ei fod yn Gymrawd o'r Gymdeithas Peirianeg Sifil ac yn ei brofiad ef y dylid cynnal arolwg llawn priodol mewn amgylchiadau o'r fath.

Roedd ymholiadau pellach a godwyd gan gynghorwyr yn ymwneud â cholli amwynderau gan gynnwys colli garej atgyweirio sydd wedi bod yn gweithredu ers 100 mlynedd, ac nid oedd y cais cynllunio wedi mynd i'r afael yn briodol â cholli'r amwynder hwn. Eglurodd Mr Dwyer ei fod wedi rhedeg Ripples am y 25 mlynedd diwethaf a'i fod wedi bod yn barlwr hufen iâ ers dros 40 mlynedd.

Roedd meysydd pryder eraill a godwyd gan gynghorwyr yn cynnwys y posibilrwydd o gollir unig gaffi cyfeillgar i seiclwyr ar lan y môr y Mwmbwls a oedd yn darparu cyfleusterau atgyweirio a chynnal a chadw beiciau. Mae'r cais arfaethedig hefyd yn cynnwys cynyddu'r arwynebedd a ddefnyddir ar hyn o bryd a byddai'n cynnwys cael gwared ar gyfleusterau eistedd ger y blaendraeth a byddai'n effeithio'n negyddol ar yr ôl troed carbon. Mae'r cais cynllunio yn ymwneud â defnydd preswyl er nad oes cynllun busnes ar gyfer y llawr gwaelod.

Y dyddiad cau ar gyfer apeliadau yw 10 Ebrill 2024 ac mewn ymateb i bryderon y cynghorwyr, dywedodd y Cynghorydd O'Neill y gall cynghorwyr wneud cwynion unigol yn ogystal ag apêl 'ar y cyd' gan y cyngor llawn pe bai honno'n cael ei chymeradwyo gan y cyngor llawn.

**PENDERFYNWYD** bod y cyngor yn cytuno'n unfrydol i wrthwynebu'r cais cynllunio yn ffurfiol. Bydd angen i'r clerc roi gwybod i Gyngor Dinas a Sir Abertawe am y penderfyniad ar 10 Ebrill 2024

Daeth y drafodaeth ynghylch cais cynllunio i ben am 6.57pm pan adawodd pob aelod o'r cyhoedd y cyfarfod ac ailymunodd y cynghorwyr Fogarty a Keeton â'r cyfarfod.

#### C02404-04

#### **Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y cyngor llawn a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024 fel cofnod cywir.

#### C02404-05

#### **Cymeradwyo'r Rhestr o Benderfyniadau ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023/24**

Roedd y clerc wedi dosbarthu dogfennau perthnasol cyn y cyfarfod yn amlinellu'r angen i ddangos pwerau cymhwysedd cyffredinol a chynigiodd ateb unrhyw ymholiadau.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

#### C02404-06

#### **Adroddiad y clerc**

Darllenodd y clerc ei hadroddiad sydd ynghlwm, yn amlygu llwyddiant Cyngor Cymuned y Mwmbwls yng Ngwobrau Un Llais Cymru yn ddiweddar. Mae'r gwobrau'n cael eu dwyn i sylw'r gymuned ehangach trwy ddatganiad i'r wasg, cyfryngau cymdeithasol a gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

#### C02404-07

##### **Adroddiad y cadeirydd**

Darllenodd y cadeirydd, y Cyngorydd O'Neill, ei adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar lwyddiant Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn Seremoni Wobrwyo Un Llais Cymru yn ddiweddar. Bu Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn cystadlu gyda 750 o gynghorau tref a chymuned lleol eraill a chawsant ganmoliaeth uchel mewn pedwar categori. Roedd y gwobrau'n dangos gwaith caled cynghorwyr a swyddogion yn cydweithio â gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid eraill wrth gyflawni prosiectau sy'n mynd i'r afael ag anghenion lleol a bod yn arloesol a chynhwysol. Pwysleisiodd y Cyngorydd O'Neill yr angen i Gyngor Cymuned y Mwmbwls beidio â gorffwys ar eu rhwyfau ond edrych ymlaen at gael llwyddiant pellach yn y dyfodol. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau i'r cadeirydd ar ôl iddo ddarllen ei adroddiad.

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad.

#### C02404-08

##### **Adroddiad Ariannol ar gyfer mis Ebrill**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, eisoes wedi'u darparu i gynghorwyr, ac yn absenoldeb y Swyddog Ariannol Cyfrifol, cynigiodd y clerc gymryd cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiadau hyn.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chost cynnal Parc Sglefrio'r Mwmbwls a'r cyffiniau, yn enwedig cost torri'r gwair gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac opsiynau ar gyfer defnydd yr ardal yn y dyfodol gan gynnwys tyfu cnydau.

**PENDERFYNWYD** y dylid datganoli unrhyw drafodaeth ynghylch defnyddio'r ardal gerllaw Parc Sglefrio'r Mwmbwls yn y dyfodol i'r Pwyllgor Amgylcheddol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo taliadau a wnaed gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ym mis Chwefror 2024 yn ôl-weithredol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Chwefror 2024.

#### C02404-09

##### **Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd.**

Roedd cadeirydd y pwyllgor hwn, y Cyngorydd Scott wedi darparu adroddiad yn flaenorol, a heblaw am argymhellion, yn amodol ar yr eitem agenda [C02404-10](#), ni chodwyd unrhyw gwestiynau.

**PENDERFYNWYD** derbyn adroddiad y Cyngorydd Scott.

#### C02404-10

##### **Argymhellion y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth**

**Ystyried argymhellion gan y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2024.**

Cafwyd datganiad o fuddiant personol gan y cynghorwyr O'Brien ac O'Connor mewn perthynas â Chlwb Pêl-droed Newton Athletic.

Amlinellodd y cynghorydd Scott y ddau argymhelliad a ganlyn gan y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd:

### **3. Cais Grant 'Mynd yn y Mwmbwls' a 'Gwefreiddiol yn y Gŵyr'**

Roedd y Pwyllgor Cyllid wedi argymhell o fwyafrif o ddau i un na ddylid caniatáu'r swm o £829 y tymor i 'Mynd yn y Mwmbwls' a 'Gwefreiddiol yn y Gŵyr'. Roedd y cais yn ymwneud â chynorthwyo'r henoed a'r anabl, i ddarparu cyfeillgarwch a gwella eu rhwydweithio cymdeithasol.

Cafwyd trafodaeth i weld a oedd y cais hwn, er ei fod yn llwyddiannus yn flaenorol, yn bodloni canllawiau ceisiadau am grantiau Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Roedd ceisiadau diweddar eraill wedi bod yn aflwyddiannus, a chredai rhai cynghorwyr y byddai cymeradwyo'r cais hwn yn anghyson â phenderfyniadau blaenorol. Roedd canllawiau a phrosesau newydd ar gyfer cymeradwyo ceisiadau grant wedi'u cytuno yng nghyfarfod y cyngor llawn ym mis Mawrth, ond cododd rhai cynghorwyr bryderon y dylid diweddar y rhain ymhellach. Yn benodol, awgrymwyd y dylai pobl fregus ac ynysig gael eu cefnogi gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls, ond y dylid cyflawni hyn trwy broses dendro sy'n adlewyrchu angen daearyddol y gymuned.

**PENDERFYNWYD** er nad oedd penderfyniad yn cael ei wneud mewn perthynas ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid, bod y clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn paratoi proses dendro ac yn adrodd yn ôl i'r cyngor llawn. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth i bobl ynysig, gan fynd i'r afael â llesiant cymdeithasol a chorfforol pobl ynysig ledled ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls, gan ystyried eu lleoliadau daearyddol a mynd i'r afael â'u hanghenion llesiant a datblygiadol.

### **4. Cais Grant Clwb Pêl-droed Newton Athletic**

Argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylid cymeradwyo cais am grant am swm hyd at £1,500 i gynorthwyo i gynnal y twrnamaint pêl-droed haf cyntaf ym Mharc Underhill.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr argymhelliad uchod.

## **C02404-11**

### **Adroddiad gan gadeirydd y Pwyllgor Cymunedol a Chymdeithasol**

Roedd y Cynghorydd Erasmus (y cadeirydd), eisoes wedi dosbarthu ei hadroddiad a oedd yn canolbwyntio ar gynigion i ailddatblygu Clwb Hwyllo'r Mwmbwls ac un argymhelliad mewn perthynas â throsglwyddiad o £3,000 i dalu am gost Jam Parc Sglefrio 2023 a nodir isod.

Amlinellodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau sut yr oedd cyflwyniad gan Glwb Hwyllo'r Mwmbwls (yn manylu ar ddatblygiad newydd arfaethedig ar y blaendraeth) yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol ym mis Ebrill wedi'i ohirio tan fis Mai oherwydd nad oedd personél o Glwb Hwyllo'r Mwmbwls ar gael. Bydd yr holl gynghorwyr yn cael eu gwahodd i gyfarfod pwyllgor mis Mai i gael diweddariad llawn ar gynigion a datblygiadau.

Gwahoddodd y Cynghorydd Erasmus y cyngorwyr i ofyn cwestiynau a diolchodd i gyngorwyr a swyddogion a oedd wedi cynorthwyo i ddatblygu prosiectau llwyddiannus dros nifer o flynyddoedd.

### **Ystyried argymhelliad gan y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024.**

Mae'r trosglwyddiad hwnnw o £3,900 yn cael ei wneud o CSD21 – Cyrtiau Tennis Bae Langland – Cyllideb Gatiâu Clubspark i CSD2 – Parc Sglefrio i dalu costau Jam Parc Sglefrio 2023. Mae Cyllideb Gatiâu Clubspark wedi tanwario oherwydd cafwyd cyllid grant gan LTA Tennis Foundation ar gyfer gosod y gât.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pham y dylid trosglwyddo arian, ond cydnabuwyd bod y gwariant wedi'i gytuno'n gynharach mewn cyfarfod llawn o'r cyngor.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr argymhelliad uchod.

**C02404-12**

### **Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Amgylcheddol**

Amlinellodd y Cyngorydd Nelson (y cadeirydd) yr agweddau allweddol a ganlyn:-

- Arweiniodd trafodaeth yng Nghyfarfod Pwyllgor Amgylcheddol mis Mawrth at bob cyngorydd yn cefnogi penodi garddwr ar unwaith i ymgymryd â swydd clodfawr yn Ystâd Pen-rhys yn dilyn ymddiswyddiad Martin Russell. Roedd aelodau'r pwyllgor o'r farn y byddai contractio gwaith allan yn wrthgynhyrchiol ac yn arwain at gostau ychwanegol. Yn ogystal, ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion mewn perthynas â dyfynbrisiau tendro gan gwmnïau y cysylltwyd â hwy.
- Roedd sesiwn Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls a gynhaliwyd yn Neuadd Newton ar 22 Mawrth 2024, wedi bod yn llwyddiant mawr a'r gobaith yw y daw'n ddigwyddiad blynyddol (ychwanegodd y Cyngorydd Townsend yn ddiweddarach fod y digwyddiad wedi'i recordio gan Oystermouth Radio, ac y byddai'n cael ei ddarlledu am 5pm dros y penwythnos nesaf)
- Bydd Su'r Mwmbwls yn ei Blodau yn cychwyn ar 1 Mai gydag enillwyr yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi 2024. Bydd nifer o gategoriâu a'r gobaith yw y bydd masnachwyr yn Heol Newton yn cymryd rhan.
- O ran Naid Fawr yr Hinsawdd, mae'r Swyddog Amgylcheddol, Lydia Graham yn trafod â Chyngor Dinas a Sir Abertawe ar ôl llwyddo'n ddiweddar i gael arian grant. Y gobaith yw cynnwys yr holl gyngorwyr a'r gymuned ehangach i gyrraedd targedau amgylcheddol gan gynnwys llythrennedd carbon.

Gwahoddodd y Cyngorydd Nelson y cyngorwyr i ofyn cwestiynau.

Er na ofynnwyd unrhyw gwestiynau diolchodd y Cyngorydd O'Connor i'r Cyngorydd Nelson am ei llwyddiant a'i brwdfrydedd yn cyflawni cymaint o ganlyniadau cadarnhaol.

**C02404-13**

**PENDERFYNWYD** derbyn adroddiad y Cyngorydd Nelson.

**Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu**

Roedd y Cynghorydd Marshall, y cadeirydd, eisoes wedi dosbarthu ei adroddiad ac wedi amlinellu agweddau allweddol gan gynnwys y paratodau terfynol ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls. Mynegwyd siom nad oedd unrhyw gynghorwyr heblaw aelodau'r pwyllgor yn bresennol yn y cyfarfod 'caeedig' i drafod gweithredoedd priodol ar 13 Mawrth 2024.

Darparodd y Cynghorydd Marshall ddiweddariadau byr hefyd ar Palet y Mwmbwls, a oedd wedi'i ailenwi'n 'Diwrnod ym Mywyd y Mwmbwls', cystadleuaeth ffotograffig sy'n annog pob oed a gallu i gymryd rhan mewn amrywiaeth o themâu.

Rhoddodd Mr Paul Whittaker o Gymdeithas Masnachwyr y Mwmbwls gyflwyniad yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Mawrth a bydd cyswllt yn parhau.

**Ystyried yr argymhelliad a ganlyn gan y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2024.**

Bod Sianny Martin o Ambiwlans Awyr Cymru i gael caniatâd i gynnal digwyddiad 'Cestyll yn yr Awyr' ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls. Dim dyddiad wedi ei osod.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Marshall nad oedd unrhyw oblygiadau ariannol i Gyngor Cymuned y Mwmbwls o ran yr argymhelliad arfaethedig hwn.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr argymhelliad uchod.

C02404-14

**Argymhellion yr Is-bwyllgor Gefeillio**

Amlinellodd y Cynghorydd Fogarty gynnig i wario hyd at £1,500 ar ddigwyddiadau i groesawu dirprwyaeth o Hennebont, Ffrainc, i ddarparu rhaglen o weithgareddau ar gyfer 12 Mehefin 2024 a nodi achlysur ugeinfed pen-blwydd gefeillio y Mwmbwls â Hennebont. Mae hyn yn cynnwys y canlynol: -

- Trip ar gyfer hyd at 30 o bobl ar The Copper Jack
- Taith o'r ardal forwrol gyda thywysydd
- Ymweliad ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, gan gynnwys yr Amgueddfa Drafnidiaeth
- Cinio i 17 gyda'r Arglwydd Faer yn Y Plasty
- Plac llechen i goffau ugeinfed pen-blwydd gefeillio â Hennebont.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr argymhelliad uchod.

Gadawodd y Cynghorydd Marshall y cyfarfod am 8.13pm.

C02404-15

**Cais Cynllunio 2024/0475/FUL**

C02404-16

Trafodwyd yn gynharach o dan yr eitem [C02404-03](#) ar yr agenda

**Ymgynghoriad ar Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Roedd y clerc eisoes wedi dosbarthu dogfennau yn ymwneud â'r eitem hon ar yr agenda ac awgrymodd y dylai gweithgor bach ei symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD** bod y cynghorwyr Keeton, Thomas a Townsend Jones yn cyfarfod â'r clerc ar 11 Ebrill i symud yr eitem agenda yn ei flaen trwy weithgor. Dylai unrhyw gynghorwyr ychwanegol sy'n dymuno cymryd rhan gysylltu â'r clerc drwy e-bost fel mater o frys.

C02404-17

**Dathliadau D-Day**

Cafwyd trafodaeth ar sut y dylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls goffáu D-Day.

**PENDERFYNWYD** y dylai £20 fod ar gael i Gyngor Cymuned y Mwmbwls a phob ysgol gynradd yn yr ardal i ddarparu baner goffa.

#### C02404-18

##### **Ffi Aelodaeth Flynyddol Un Llais Cymru**

Roedd y clerc wedi dosbarthu dogfennau perthnasol cyn y cyfarfod a chynigiodd gymryd unrhyw gwestiynau.

**PENDERFYNWYD** talu ffi aelodaeth flynyddol Un Llais Cymru.

Dychwelodd y Cyngorydd Marshall i'r cyfarfod am 8.19pm

#### C02404-19

##### **Cadarnhau dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Cynigiodd y Clerc ddyddiad 7 Mai 2024 ar gyfer y cyfarfod blynyddol.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau 7 Mai 2024 ar gyfer Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

#### C02404-20

##### **Cadarnhau'r Rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2024/25**

Cynigiodd y clerc gadw'r amserlen bresennol ar gyfer cyfarfodydd y cyngor llawn a phwyllgorau, sef:-

- Y cyngor llawn i'w gynnal ar yr ail ddydd Mawrth o bob mis.
- Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd i'w gynnal ar y trydydd dydd Llun o bob mis.
- Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol i'w gynnal ar y trydydd dydd Mercher o bob mis.
- Pwyllgor yr Amgylchedd i'w gynnal ar y pedwerydd dydd Llun o bob mis.
- Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu i'w gynnal ar y pedwerydd dydd Mercher o bob mis.

**PENDERFYNWYD** cadw'r amserlen bresennol ar gyfer cyfarfodydd fel yr amlinellwyd uchod.

#### C02404-21

##### **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

Yn unol â darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cynigir bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitemau busnes a ganlyn oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

**PENDERFYNWYD** oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod.

#### C02404-22

##### **Cais am oddefeb**

Amlinellodd y Clerc amgylchiadau y cais am oddefeb.

**PENDERFYNWYD** cytuno i'r cais uchod.

**C02404-22**

**Argymhellion y Pwyllgor Personél.**

Gadawodd swyddogion y cyfarfod am 8.28pm.

Cafwyd trafodaeth ynghylch argymhelliad (argymhellion) a wnaed gan y Pwyllgor Personél. Argymhelliad (argymhellion) diwygiedig a gynigir.

**PENDERFYNWYD** bod yr argymhelliad (argymhellion) diwygiedig ynghyd â chymau gweithredu cysylltiedig yn cael eu derbyn.

Dychwelodd y swyddogion am 8.40pm pan ddaeth y cyfarfod i ben.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 15 Mai 2024.

Cyfarfod Blynyddol ar 7 Mai 2024